

19 - Waunfawr i Benygroes 7.1 milltir/11.5 km

Dilynwch y brif ffordd dros yr afon a heibio i'r Snowdonia Inn. Cymerwch y lôn ar y dde gydag arwydd Rhosgadfan arni. Dilynwch hon i ymuno â llwybr sy'n mynd i'r chwith (gyda'r arwydd Y Fron) i groesi nant. Yna mae'n dringo i fyny dros ddwy hen gamfa ysgol fetel sy'n arwain i'r Comin. Ewch yn syth ymlaen tuag at gornel chwith y corlannau. Mae'r llwybr yn mynd ar hyd y wal yma ac yn pasio dwy breswylfa ar eich ochr dde i ymuno â'r trac tuag at Fferm Hafod Rhuffydd lle mae ffordd fetlin yn ymuno â hi yn awr. Dilynwch hon nes bydd yn gwyro i'r dde.

Yma cymerwch y llwybr troed sy'n mynd i'r chwith – mae postyn cyfeirbwynt ychydig ffordd ar hyd y llwybr yma. Mae'r llwybr wedi'i gyfeirbwyntio yn awr ar draws y gweundir. Byddwch yn dod at gyffordd llwybrau wedi ei marcio gan garreg eithriadol o fawr ar yr ochr dde.

Trowch i'r dde tuag at hon a dilyn y llwybr i'r chwith iddi heibio i domennydd gwastraff hen Chwarel Lechi Moel Tryfan. Mae golygfeydd da i'r chwith o esgair Nantlle a'r llyn islaw. Nawr mae'r llwybr yn mynd i'r dde i mewn i'r chwarel ac yn ymuno â'r ffordd fynediad sy'n dirwyn o gwmpas at grid gwartheg. Ewch dros hwn a chymryd y fforch ar y dde. Dilynwch y llwybr heibio i hen chwarel arall sydd dan ddŵr at y Groesffordd yn Fron. Cymerwch y trac gyferbyn i fynd ar y tir agored a thua Bontwrog. Parhewch ar hyd y trac i anheddfa Cilgwyn. Ar gyffordd y ffordd mae cysegrfa ddiddorol. Cymerwch y fforch i'r chwith.

Ewch yn eich blaen i lawr y lôn nes byddwch yn dod at gyffordd, ewch i'r chwith tuag at yr hen chwarel/safle tirlenwi, ond wrth i chi gyrraedd y wal, byddwch yn gweld twnnel drwyddi ar eich ochr dde. Ewch drwy hon a pharhau drwy giât mochyn ac i lawr y llwybr nes cyrhaeddwch gyffordd arall o lwybrau. Ewch ymlaen i lawr drwy giât mochyn fetel (GR 492588) ar hyd llwybr muriog drwy ddwy giât mochyn gan barhau i lawr stepiau carreg at giât ar eich ochr dde. Ewch drwy'r giât tuag at drac lle byddwch yn troi i'r chwith. Dilynwch y trac i lawr at giât a throi i'r dde i drac arall sy'n troi'n lôn fetlin. Pan gyrhaeddwch gylchfan gyda choed yn y canol, cymerwch y fforch chwith a pharhau i lawr y lôn at giât mochyn ar eich ochr chwith.

Ewch drwy'r giât mochyn a throi i'r dde i ddilyn y llwybr i drac sy'n mynd cyn hir heibio'r cae pêl-droed ar eich ochr chwith. Dilynwch y llwybr at giât mochyn i'r ffordd lle'r ydych yn troi i'r chwith. Croeswch y ffordd i'r llwybr troed gyferbyn a dilynwch y ffordd nes gwelwch arwydd llwybr troed ar eich ochr dde. Cerddwch i lawr y llwybr troed braf yma drwy'r coed gyda nant ar eich ochr chwith. Pan gyrhaeddwch bont droed peidiwch â'i chroesi ond trowch i'r dde i'r llwybr glan yr afon gyda'r Afon Llyfni ar eich ochr chwith. Dilynwch y llwybr yma'n ofalus drwy ddwy giât mochyn. Ar ôl yr ail giât mae'r llwybr yn troi'n raddol i'r dde ar draws sarn lechi wedi'i chodi sy'n esgyn yn y pen draw at giât mochyn i'r brif ffordd (B4418). Trowch i'r chwith a chroesi'r ffordd yn ofalus a chymryd y llwybr troed llydan gyferbyn a'i ddilyn yr holl ffordd i mewn i Benygroes.